1·48

# CWYN

Y

# GWEITHIWR

## TANDDAIAROL.

—o—

Ton y "Ddimai Goch."

—o—

Ar foreu teg dan gysgod llwyn,
  Ar wyrddlas dwyn eisteddais,
Ac heibio y pryd hwn y daeth,
  Rhyw weithiwr caeth—gofynais
Iddo ef pan yn ei weled,
  Braidd gan beswch methu cerdded
Pa mor bell yr oedd yn myned,
  Fe'm atebai'n ddigon ufudd,
At fy ngwaith i'r dwfn gloddfeydd,
  I ymboeni fel 'rwy' beunydd.

Hen weithiwr tanddaiarol wyf,
  A'm bron yn glwyfus ddigon,
Gwaith hir lafurio'n galed iawn
  Mewn awyr llawn o nwyon,
Yn y dyfnder afaich enbyd,
  Hyn sydd wedi dwyn fy iechyd,
Fel y dengys fy ngwynebryd;
  Ac er gweithio hir flynyddau,
Tlawd iawn wyf yn fy hen ddyddiau,
  Yn fy chwys a mynych eisiau.

OC 35779480

Mewn prudd dywyllwch rwyf yn byw,
A bychan yw fy nghysur,
Nid yw y dydd ond nos i mi,
Mewn isel fri y'm gwelir,
Fel llysieuyn gwyw fo'n tyfu,
Heb wen haul i'w fwyn achlesu,
Chwai'n y tywyll mae'n melynu,
Felly minau f'oes a dreuliwyd,
Yn y caddug afiach enwyd,
Ow ! fy iechyd a wanychwyd.

Darn bach o'r hwyr a'r boreu sydd
I mi o'r dydd yn gyfran,
Hyfrydwch hwn a'i nerth sy'n ffoi,
Cyn caffaf fi 'nhroi allan :
Dyn wyf wedi gweithio 'n galed,
Dan flinderau tost a lludded,
Nes roi 'nwyfron mewn caethiwed,
Nid yw f'oes ond annedwyddwch,
Braidd i gyd heb fawr diddanwch,
Bywyd caled dibaid coeliwch.

Ar lawer boreu hafaidd mwyn,
Gwilth ar bob llwyn yn berlau,
A'r adar drwy y gwydd mewn parch,
Yn cyfarch haul y boreu,
Pan y llysiau 'n lledu 'n swynol,
Rhos a blodau 'n gwenu 'n siriol,
A gwedd Natur mor iachusol,
Minau 'n gorfod gado rhei'ny,
Ac i'r tywyll bwll ymsoddi,
Yno i weithio 'r dyrys wythi.

W1 13181
CC35779480

Fel hyn bu'm gaeth drwy'm oes bob dydd,
  A hyny 'n brudd fy nghalon,
Mal ellyll yn y dyfnder mawr,
  Mewn cylch o fawr beryglon,
Gweld y creigydd bob tu 'n syrthio,
  Brydiau eraill nwy yn flamio,
Minau 'n crynu heb le i gilio,
  Mynych yn y certh ddifrodaeth,
Bu'm bron myned yn ysglyfaeth,
  Ow ! oes hynod prudd wasanaeth.

Mae'm corph yn greithiau mawr a mân,
  Gan dân a phob ryw ddyrnod,
Ac arnaf byddant yn fy nhoi,
  Pan caf fy rhoi 'n y beddrod,
I egluro maint y poenau,
  Fel hyn ddygais rhai tymorau,
Pallu 'n llwyr wna iaith a'i geiriau,
  Gwywais, aethum braidd yn gelain,
Tybia rhai fi'n, bedwar ugain,
  Pan nad wyf ond deg a deugain.

Wrth ffyddlon gynal gwraig a phlant,
  A rhoi i gant wasanaeth,
Mawr oddef yn ei goddef hwy,
  A wneuthum fwy na milwaith,
Rhyw offeryn er gwasanaeth,
  Roddwyd fi yn llaw ragluniaeth,
I barhau i mlaen ddynoliaeth,
  Felly 'nol y llafur cletaf,
Pan ar derfyn oes mi dystiaf,
  " Dimai goch " yw'rcwbl feddaf.

AP MYFYR.

*Pontypridd, 1853.*

PUBLIC